| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 18 Tachwedd 2015 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Pennaeth Gwasanaeth – Gwella Busnes a Moderneiddio |
| Awdur yr Adroddiad: | Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol |
| Teitl: | Ymgynghoriad Deddf Rhyddid Gwybodaeth |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Darparu ger bron y Pwyllgor ymateb arfaethedig Cyngor Sir Ddinbych i'r ymgynghoriad ynglŷn â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi dangos diddordeb brwd yn y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Credir y byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael copi o ymateb arfaethedig y Cyngor a chael cyfle i roi eu mewnbwn cyn ei gyflwyno (erbyn 20 Tachwedd).

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Nodi ymateb arfaethedig y Cyngor i'r ymgynghoriad a darparu unrhyw sylwadau y dylid eu hymgorffori.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Ddeddf"), a ddechreuodd ym mis Ionawr 2005, yn darparu hawl orfodadwy i gael mynediad at wybodaeth a gofnodwyd gan tua 100,000 o sefydliadau'r sector cyhoeddus. Yr amcanion a fwriadwyd ar gyfer y Ddeddf, wrth ei chyflwyno yn senedd Lloegr, oedd: 'trawsnewid diwylliant y Llywodraeth o fod yn gyfrinachol i fod yn agored'; 'codi hyder ym mhrosesau'r Llywodraeth, a gwella ansawdd y penderfyniadau a wneir gan y Llywodraeth'; a 'sicrhau cydbwysedd rhwng yr hawl i wybodaeth... ac angen unrhyw sefydliad, gan gynnwys y Llywodraeth, i allu llunio ei pholisïau mewn preifatrwydd'.

Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu canllawiau drwy gyfrwng cod ymarfer i helpu i sicrhau y cedwir cofnodion pwysig o'r broses gwneud penderfyniadau yn rhan o gefndir hanesyddol y Llywodraeth. Nid yw'r Ddeddf yn berthnasol i geisiadau am wybodaeth amgylcheddol gan fod y ceisiadau hynny'n cael eu hystyried dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (neu, yn yr Alban, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (Yr Alban) 2004), sydd yn rhoi Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Fynediad at Wybodaeth Amgylcheddol ar waith. Hefyd nid

yw’r Ddeddf yn berthnasol i geisiadau i weld data personol amdanoch chi eich hun gan fod y ceisiadau hynny’n cael eu hystyried dan ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 o ran hawl yr unigolyn i weld data amdano ei hun.

Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl statudol i’r sawl sy’n gwneud cais i ddarganfod os yw awdurdod cyhoeddus yn cadw gwybodaeth ac i gael mynediad ato o fewn fframwaith o derfynau a mesurau diogelu ar gyfer gwybodaeth sensitif. Mae’r terfynau a’r mesurau diogelu yn y Ddeddf yn cynnwys eithriadau ar gyfer mathau penodol o wybodaeth, rhanddirymiadau fel bod rhywfaint o wybodaeth y tu allan i gwmpas y Ddeddf, darpariaethau i atal ceisiadau sydd yn rhy gostus neu’n flinderus, a'r pŵer i Weinidog o’r Cabinet, sy'n gweithredu ar y cyd â gweddill y Cabinet, i roi feto ar ryddhau gwybodaeth.

Ar ôl gweithredu’r Ddeddf am ddeng mlynedd, sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Ryddid Gwybodaeth ar 17 Gorffennaf. Amlinellwyd cylch gorchwyl y Comisiwn gan Swyddfa'r Cabinet:

> *“Bydd y Comisiwn yn adolygu Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ('y Ddeddf') i ystyried a oes cydbwysedd priodol o ran lles y cyhoedd rhwng tryloywder, atebolrwydd a’r angen i wybodaeth sensitif gael amddiffyniad cadarn, ac a yw’r modd y caiff y Ddeddf ei gweithredu yn cydnabod yn ddigonol yr angen am "ofod diogel" er mwyn datblygu a gweithredu polisïau a chael cyngor didwyll. Efallai y bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried y cydbwysedd rhwng yr angen i gynnal mynediad cyhoeddus at wybodaeth, a baich y Ddeddf ar awdurdodau cyhoeddus, ac a oes angen newid i gymedroli hynny tra cedwir mynediad y cyhoedd at wybodaeth.”*

Mae'r Comisiwn yn glir bod y cylch gorchwyl yn golygu y bydd yn rhaid edrych yn ofalus ar y goblygiadau i’r Ddeddf a’i gweithrediad ymarferol fel y datblygodd dros y deng mlynedd diwethaf o ran y gofod cydgynghorol a roddir i awdurdodau cyhoeddus. Mae gan y Comisiwn hefyd ddiddordeb yn y cydbwysedd rhwng tryloywder a baich y Ddeddf ar awdurdodau cyhoeddus yn fwy cyffredinol. Mae'r Comisiwn yn canolbwyntio'n benodol ar y cwestiynau canlynol:

- Cwestiwn 1: Pa amddiffyniad ddylai fod ar gyfer gwybodaeth sy’n ymwneud â thrafodaethau mewnol cyrff cyhoeddus? Am ba hyd yn dilyn penderfyniad o'r fath y dylai’r wybodaeth aros sensitif? A ddylai bod amddiffyniad gwahanol yn berthnasol i wahanol fathau o wybodaeth a ddiogelir ar hyn o bryd gan adrannau 35 a 36?

- Cwestiwn 2: Pa amddiffyniad ddylai fod ar gyfer gwybodaeth sy'n berthnasol i broses y Cabinet o drafod a chytuno? A ddylai fod gan yr wybodaeth hon yr un amddiffyniad neu ragor o amddiffyniad na'r hyn a roddir i wybodaeth gydgynghorol fewnol arall? Am ba hyd y dylid amddiffyn deunydd o'r fath?

- Cwestiwn 3: Pa amddiffyniad ddylai fod ar gyfer gwybodaeth sy'n cynnwys asesiad gonest o risgiau? Am ba hyd y dylai gwybodaeth o’r fath aros sensitif?

- Cwestiwn 4: A ddylai fod gan y weithrediaeth feto (yn amodol ar adolygiad barnwrol) mewn perthynas â rhyddhau gwybodaeth? Os felly, sut y dylid ei weithredu a pha gamau diogelu sydd eu hangen? Os nad, pa oblygiadau sydd i weddill y Ddeddf, a sut allai'r Llywodraeth ddiogelu gwybodaeth sensitif rhag cael ei ddatgelu fel arall?

- Cwestiwn 5: Beth yw'r system orfodi ac apelio briodol ar gyfer ceisiadau rhyddid gwybodaeth?

- Cwestiwn 6: A yw lles y cyhoedd o ran eu hawl i wybod yn cyfiawnhau'r baich a osodir ar awdurdodau cyhoeddus dan y Ddeddf? Neu a oes angen rheolaethau i leihau baich Rhyddid Gwybodaeth ar awdurdodau cyhoeddus? Os oes cyfiawnhad dros y rheolaethau, a ddylid eu targedu ar y mathau o geisiadau sy'n gosod baich anghymesur ar awdurdodau cyhoeddus? Pa fath o geisiadau sy'n gosod baich anghymesur?

**Ymateb Sir Ddinbych i'r Ymgynghoriad ynglŷn â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

Mae Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) wedi llunio'r ymateb canlynol i gwestiwn 6, gan y credir mai dyma'r mater mwyaf perthnasol i'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gryf o'r farn y dylai awdurdodau cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol am eu penderfyniadau ac fel rhan o hyn dylai fod gan y cyhoedd hawl i ofyn am wybodaeth a gedwir gennym. Mae'r Cyngor hefyd o'r farn bod y baich ar awdurdodau cyhoeddus dan y Ddeddf yn prysur gyrraedd lefel pan fo angen rheolaethau ar frys i leihau'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â hyn cyn i'r llwyth gwaith fynd yn llethol.

Mae baich y Ddeddf yn dargyfeirio amser gwerthfawr staff oddi wrth ddarparu gwasanaethau craidd i gyflawni tasgau y gellid dadlau sydd yn llai pwysig. Mae hyn yn rhoi straen pellach ar awdurdodau lleol sy'n gorfod cynnal gwasanaethau craidd tra wynebant doriadau sylweddol yn y gyllideb.

Mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn nifer y ceisiadau am wybodaeth. Pan ddaeth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i fodolaeth yn ystod 2005, derbyniodd y Cyngor 500 cais o'r fath. Cynyddodd y ffigur hwn i 1150 o geisiadau yn 2014.

Gwnaed ymdrechion i leihau'r baich, yn enwedig drwy gyhoeddi rhagor o wybodaeth, ond ychydig effaith y mae hyn wedi ei gael gan fod pob cais fymryn yn wahanol i'w gilydd. Golyga bod yn awdurdod lleol yng Nghymru hefyd fod angen cyhoeddi popeth ar y wefan yn ddwyieithog, sy'n cynyddu'r llwyth gwaith hwn.

Mae'r Cyngor wedi sylweddoli bod nifer o'r ceisiadau'n golygu sawl awr o waith ond bod hynny'n aml islaw'r trothwy codi tâl, sef £450 (Adran 12). Yn ogystal, gall mynd ati i olygu dogfennau gymryd sawl awr a hyd yn oed rai dyddiau mewn sawl achos,

ond ar hyn o bryd, nid yw'r Ddeddf yn caniatáu inni gynnwys y gwaith hwn o fewn y terfyn amser. O fewn sefydliadau sector cyhoeddus mawr ac amrywiol, megis awdurdodau lleol, yn anaml y bydd gwybodaeth wedi ei chadw'n ganolog, ac yn hytrach, yn aml bydd ar wasgar ar draws sawl maes gwasanaeth mewn amrywiol gronfeydd data neu gyfryngau eraill. Dyma'r mathau o geisiadau'n aml sy'n cymryd y mwyaf o amser i ymdrin â nhw, gan fod angen cynnwys sawl swyddog o sawl tîm i benderfynu a yw'r wybodaeth yn ein meddiant, ei leoli, ei adfer, ei echdynnu ac yna dod â'r wybodaeth ynghyd i ddarparu un ymateb cydlynol.

Am y rhesymau a nodwyd uchod, byddai Cyngor Sir Ddinbych yn annog y Comisiwn i ddiwygio'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gynnwys darpariaeth fel y gall awdurdodau cyhoeddus godi ffi mewn enw o tua £20, am bob cais. Argymhellwn hefyd bod y terfyn priodol (Adran 12) yn cael ei leihau o 18 awr i 10 awr. Dylid diwygio adran 12 hefyd i gynnwys yr amser a dreulir yn golygu dogfennau.

Credwn y byddai cyflwyno'r newidiadau hyn yn lleihau'r baich ar awdurdodau cyhoeddus i lefel fwy ymarferol a chymesur tra bo hawliau statudol y cyhoedd i weld gwybodaeth yn parhau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amh.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amh.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Does dim yn deillio o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn effeithio ar unigolion â nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cafodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Cyfarwyddwyr a swyddogion allweddol ar draws y Cyngor eu gwahodd i gyfrannu at yr ymgynghoriad.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r ymateb arfaethedig yn tynnu sylw at y baich ychwanegol y mae'r Ddeddf yn ei roi ar y Cyngor ac yn cynnig awgrymiadau synhwyrol a allai helpu i'w leihau.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Amh.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Amh.